

# Cynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru

## SWYDD DDISGRIFIAD

- Teitl y swydd:** Swyddog Prosiect Mawndiroedd Cymru  
(Contract 2 flynedd, 37 awr yr wythnos)  
(Ariennir y swydd gan Cynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru) (WPSMS)
- Graddfa:** Graddfa 7 Pwyntiau 25 - 29
- Lleoliad:** Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd
- Yn atebol i:** Rheolwr Prosiect Mawndiroedd Cymru
- Yn gyfrifol am:** Neb

### 1. CYD-DESTUN:

Mae Grŵp Gweithredu Mawndiroedd Cymru (WPAG) yn glymblaid o sefydliadau ac elusennau cadwraeth ac ymchwil, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru ac undebau'r ffermwyr sydd â diddordeb gweithredol ym mawndiroedd Cymru a chyflawni targed y Gweinidogion i warchod a gwella mawndiroedd Cymru erbyn 2020.

Mae'r Prosiect Cynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru yn brosiect holl-Gymru, wedi ei ddatblygu gan WPAG, i ddiogelu a datblygu'r llu o fanteision y gellir eu darparu gan briddoedd sy'n llawn mawn ac i geisio dod o hyd i fecanweithiau cyllido a rheoli cynaliadwy hirdymor ar gyfer yr adnoddau naturiol ac ardaloedd tirwedd a bioamrywiaeth eiconig hyn sy'n aml yn fregus ac yn cael eu hesgeuluso.

Arweinir y prosiect gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ar ran Grwp Gweithredu Mawn Cymru(WPAG), mewn partneriaeth ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y Ganolfan Ecoleg ac Hydroleg, Rhaglen Undeb Rhyngwladol Cadwrthaet Natur y DU, Ymddiriedolaeth Natur Sir Drefaldwyn, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phrifysgol Abertawe.

### 2. ARIAN CYLLIDO:

Mae hwn yn brosiect £1.2M wedi'i gostio, gyda £925k yn cael ei ariannu trwy gyfrwng Rhaglen Datblygu Wledig - Cymunedau Gwledig 2014 - 2020 Llywodraeth Cymru, trwy gyfrwng Cronfa Amaethyddol ar gyfer Datblygu Gwledig Ewropeaidd yr Undeb Ewropeaidd.



### **3. PWRPAS Y SWYDD:**

- 3.1 Monitro a gwerthuso safleoedd yn effeithiol( e.e. dyfnder mawn, cyflwr llystyfiant, materion draeniad) er mwyn cael data cywir a dibynadwy am safleoedd mawndiroedd Cymru.
- 3.2 Datblygu rhaglenni gwaith wedi'u costio ar gyfer gwarchod ac adfer priddoedd mawn diraddiedig yng Nghymru.
- 3.3 Hwyluso ac ymgysylltu â thirfeddianwyr a rheolwyr wrth ddatblygu prosiectau Cod Mawndiroedd a / neu Dalu am Wasanaethau Ecosystemau (PES) y gellir eu marchnata.
- 3.4 Ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â grwpiau cymunedol ac arbenigol i wireddu gwerthoedd cymdeithasol, diwylliannol a threftadaeth mawndiroedd yn lleol mewn partneriaeth â sefydliadau lleol a chenedlaethol.
- 3.5 Ymgysylltu'n weithredol ag elfen academiaidd ac ymchwil prosiect WPSMS yng nghydestun deilliannau'r prosiect.

### **4. PRIF GYFRIFOLDEBAU:**

- 4.1 Cynllunio a chynnal asesiad safle a monitro gwahanol safleoedd mewn modd diogel a gwyddonol mewn lleoliadau anghysbell ac anodd eu cyrraedd gyda staff y bartneriaeth, gwirfoddolwyr, contractwyr a grwpiau addysgol.
- 4.2 Prosesu data safle a llunio adroddiadau cywir a chynhwysfawr ar gyflwr safle, materion a dewisiadau adfer/rheoli safleoedd.
- 4.3 Ymgysylltu â thirfeddianwyr a rheolwyr tir ynglŷn â gwerth mawndiroedd iach ac a ddiogelir a chynyddu eu dealltwriaeth o werth gweddilliol mawn mewn cyfleoedd masnachu'r farchnad sydd i ddod. Trafod a datblygu cynlluniau rheoli mawn ar gyfer safleoedd y gellir eu marchnata am eu gwerth carbon.
- 4.4 Negodi a datblygu cynlluniau rheoli mawn ar gyfer safleoedd y gellir eu marchnata am eu gwerth carbon.
- 4.5 Datblygu cysylltiadau cryf gydag ysgolion lleol a grwpiau a sefydliadau addysg i gynyddu ymwybyddiaeth o fawn, a chael gwared ar ofnau a mythau am fawndiroedd.
- 4.6 Cynllunio prosiectau a ariennir gan gyfalaf ar gyfer safleoedd adfer mawndiroedd gan gynnwys caniatadau, costau, tendro a gweinyddu grantiau .
- 4.7 Coladu data safleoedd (dyfnder mawn, cyflwr, data hydrolegol, dadansoddi llystyfiant, arolwg cyflwr, manylion perchnogaeth a rheolaeth), dadansoddi y data ar gyfer defnydd pellach; cynorthwyo gyda gwerthuso datblygiad y prosiect.
- 4.8 Cynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu llwyfan ymchwil mawndiroedd sy'n cael ei datblygu gan bartneriaid y prosiect.
- 4.9 Cynorthwyo â chodi proffil y prosiect gyda gweithgareddau marchnata a hyrwyddo.

### **Cyffredinol:**

- 4.10 Mynychu cyfarfodydd fel cynrychiolydd y prosiect, yn ôl y gofyn.
- 4.11 Rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch eich hunan ac eraill.
- 4.12 Sicrhau bod egwyddorion gofal cwsmer rhagorol yn cael eu cymhwyso ym mhob elfen o'r gwasanaeth a ddarperir o fewn y rôl.
- 4.13 Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel bo'r angen sydd gymesur â graddfa'r swydd.

### **5. TREFNIADAU GWAITH:**

- 5.1 Swydd llawn amser, 37 awr yr wythnos, am gyfnod o 2 flynedd o Ionawr 2019 hyd at Ragfyr 2020 yw hon.
- 5.2 Gall y swydd gynnwys gweithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd.
- 5.3 Bydd y gwaith yn cynnwys gwaith safle yn aml mewn safleoedd anodd, dyrys ac anghysbell.
- 5.4 Bydd y gwaith yn cynnwys teithio'n aml rhwng safleoedd er mwyn cysylltu â'r tîm.

### **6. CYSYLLTIADAU GWAITH:**

Gweithio mewn cysylltiad â:

- Aelodau a staff eraill Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog
- Awdurdodau Lleol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Llywodraeth Cymru
- Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur
- Ymddiriedolaethau Natur
- RSPB
- Canolfan Ecoleg a Hydroleg, Bangor
- Prifysgol Abertawe
- Grwpiau cymuned
- Undebau'r Ffermwyr
- Grwpiau a sefydliadau addysgol
- Perchnogion a rheolwyr tir
- Contractwyr

**MANYLION PERSONOL ALLWEDDOL:**

<b>Proffesiynol</b>	<b>Hanfodol</b>	<b>Dymunol</b>
	Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.	Dealltwriaeth o amgylchedd mawndiroedd, a sut i'w rheoli.
	Profiad o ymdrin â rheolwyr a pherchnogion tir.	Dealltwriaeth o'r cod mawndiroedd a'r PES
	Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol rhagorol.	Profiad o systemau GIS a GPS
	Profiad o weithio ar brosiectau gwyddonol	Sgiliau negodi
	Sgiliau cyfrifiadurol / Microsoft Office.	Gallu ymgymryd â gofynion y swydd drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
<b>Personol</b>	Gweithiwr trefnus a brwdfrydig	
	Hyder, brwdfrydedd ac aeddfedrwydd i gyflawni dyletswyddau'r swydd.	
	Gweithiwr tîm parod, ond gyda'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth am gyfnodau o amser.	
	Lefelau ffitrwydd yn unol â dyletswyddau'r swydd, gan weithio ar dir garw, anghysbell.	
	Trwydded yrru ddilys.	